



Parc Hailey – Dŵr Cymru yn bwriadu gwneud gwaith cynnal a chadw ar y rhwydwaith dŵr gwastraff

Chwefror 2020

Ennill ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd

Helo

Un o'r prif bethau rydym ni yn Dŵr Cymru yn eu gwneud yw darparu gwasanaeth o'r safon uchaf i ymdrin â'r dŵr gwastraff rydych yn ei fflysio o'r tŷ bach neu'n ei olchi i lawr y sinc. Er mwyn sicrhau y byddwch yn dal i gael gwasanaeth y gallwch ymddiried ynddo, mae angen gwneud gwaith ar y system weithiau a daeth yn bryd i ni wneud hyn yn eich cymuned chi.

Beth rydym yn ei wneud?

Dros amser, mae gwaddod a pethau anoddas eraill yn gallu crynhoi mewn pibellau dŵr gwastraff gan arafu'r llif a blocio'r pibellau. Os yw pibellau'n blocio, gallant rwygo gan amharu ar amgylchedd yr ardal.

Rhag i hyn ddigwydd yn eich ardal chi, mae angen i ni wneud gwaith cynnal a chadw i lanhau tua 500 metr o bibellau dŵr gwastraff sy'n rhedeg trwy Parc Hailey. Bydd angen dod â thanceri mawr i'r

parc i dynnu'r gwaddod sydd wedi crynhoi dros y blynyddoedd. Bydd hyn yn golygu bod y dŵr gwastraff yn gallu llifo'n rhwydd i'r gwaith trin dŵr gwastraff wedyn a lleihau'r pwysedd ar y system.

Cyn y gallwn wneud y gwaith, mae angen i ni fod yn gallu mynd at y siambrau archwilio sydd uwchben y bibellau dŵr gwastraff. Mae hyn yn golygu bod angen clirio llain o dir ym Mharc Hailey, yn rhedeg o fynedfa'r parc ar Heol Tŷ Mawr am ryw 500 metr ar hyd ymyl y caeau chwarae. Dangosir yr ardal ar ein map isod.



Beth y gallwch ei ddisgwyl

Rydym yn deall y gall gwaith fel hyn fod yn anghyfleus ac fe wnawn ein gorau i darfu cyn lleied ag sy'n bosibl ar y cyhoedd tra byddwn yn gwneud y gwaith hanfodol hwn.

Er y byddwn yn gwneud ein gorau i amharu cyn lleied ag y bo modd ar yr amgylchedd cyfagos, bydd angen i ni glirio llain o dir tua chwe metr o led yn yr ardal a nodir uchod. Bydd gennym drefniadau i gadw golwg ar ecoleg yr ardal trwy gydol y gwaith er mwyn sicrhau bod bywyd gwylt yr ardal yn cael ei warchod trwy gydol y gwaith hanfodol hwn.

Pryd

Mae angen i ni wneud y gwaith ym mis Chwefror rhag i ni orfod torri coed neu lwyni yn ystod y tymor nythu. Bwriadwn ddechrau'r gwaith ddydd Mercher 19 Chwefror ac, os bydd popeth yn mynd yn iawn, dylai'r gwaith fod wedi'i gwblhau cyn diwedd Chwefror. Byddwn yn gadael ffens atal stoc yn ei lle i warchod yr ardal hyd nes i ni ddod yn ôl i wneud y gwaith o dynnu'r gwaddod o'r bibell dŵr gwastraff. Ar hyn o bryd, y bwriad yw gwneud y gwaith yn nes ymlaen eleni. Fe gysylltwm â chi i sôn am y gwaith pan fydd y dyddiadau wedi'u trefnu.

Diolch yn fawr

Rydym wir yn gwerthfawrogi'ch amynedd a'ch cydweithrediad tra byddwn yn gwneud y gwaith hanfodol hwn.

Cysylltu â Ni

Os oes gennych ryw gwestiwn am y gwaith, gallwch ffonio Dŵr Cymru ar 0800 085 3968 a gofyn am Sheena Thomas neu Camille Valmalle.